



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **17 Hydref 2017**  
Ymatebion erbyn: **9 Ionawr 2018**

<b>Trosolwg</b>	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio barn ynghylch cynigion i ddiwygio'r system ar gyfer apelio yn erbyn prisiadau i ddibenion ardrethu annomestig yng Nghymru.</p>
<b>Sut i ymateb</b>	<p>Rhowch destun i esbonio sut mae ymateb i'r ymgynghoriad, e.e. drwy ddefnyddio'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen, drwy fynychu digwyddiad neu drwy lenwi ffurflen ar-lein.</p>
<b>Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig</b>	<p><b>Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.</b></p> <p>Cynhwyswch gyfeiriadau at y rhyngrwyd neu at ddogfennau neu wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'r rhai yr ymgynghorir â nhw, ee cyfeiriad y tudalennau ymgynghori ar y we, neu atodiadau manwl i'r ymgynghoriad.</p>
<b>Manylion Cysylltu</b>	<p><a href="mailto:LGF1Consultations@gov.wales">LGF1Consultations@gov.wales</a> Y Gangen Polisi Trethu Lleol Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ</p>
<b>Diogelu Data</b>	<p>Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.</p> <p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr</p>

unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

1. Cyflwyniad
2. Y Cefndir
3. Cynigion i ddiwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru
  - i. Cofrestru ar gyfer y broses apelio
  - ii. Hyd pob cam
  - iii. Darparu gwybodaeth
  - iv. Ôl-ddyddio apelau
  - v. Dirwyon (cosbau sifil)
4. Ffioedd
5. Rôl Tribiwnlys Prisio Cymru
6. Y Gymraeg
7. Casgliadau a'r camau nesaf
8. Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Rhagair

Mae'r system ardrethi annomestig yn cynhyrchu refeniw sy'n helpu i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol yng Nghymru. Caiff yr holl refeniw a godir yng Nghymru yn sgil ardrethi annomestig ei ailddosbarthu i lywodraeth leol a chyrrff yr heddlu yng Nghymru. Mae'n helpu i dalu am y gwasanaethau - addysg, gofal cymdeithasol, rheoli gwastraff, trafnidiaeth, tai, diogelu'r cyhoedd, cyfleusterau hamdden ac amgylcheddol a mwy - y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt. Heb y ffrwd hon o refeniw, byddai'r gwasanaethau hyn yn dioddef, ac mae'n hanfodol bod pawb yn gwneud cyfraniad teg tuag atynt.

Mae'n hanfodol hefyd fod y system ei hun yn deg. Un o nodweddion y system ardrethi yng Nghymru yw bod gan bawb sy'n talu ardrethi hawl i apelio yn erbyn ei brisiad os yw'n tybio ei fod yn anghywir. Mae'n bwysig sicrhau bod y talwr ardrethi yn talu'r swm cywir o ardrethi ac, os nad yw hynny'n digwydd, bod y symiau'n cael eu cywiro ar y cyfle cyntaf. Y mae hefyd yn bwysig i bob talwr ardrethi ymddwyn yn gyfrifol wrth ddefnyddio'r system apelio. Bydd apelau hapfasnachol yn arafu'r broses o ymdrin ag apelau dilys ac yn ychwanegu at y gost o weinyddu'r system.

Mae'r system ar gyfer ymdrin ag apelau yn erbyn prisiadau ardrethi annomestig yng Nghymru wedi'i hen sefydlu. Y mae wedi sefyll prawf amser, ond mae lle i wella, ac mae angen moderneiddio'r system er mwyn sicrhau ei bod mor effeithlon ac effeithiol ag sy'n bosibl - i'r llywodraeth ac i dalwyr ardrethi.

Yn yr ymgynghoriad hwn, nodir y sefyllfaoedd lle ceir cyfle i wella'r broses a sicrhau ei bod yn adlewyrchu amgylchiadau newidiol ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg gyfredol. Mae'n ceisio barn ar holl agweddau'r broses apelau ac ar agweddau penodol yr ydym yn cynnig eu diwygio. Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddatblygu rhan helaeth o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r broses apelio, ond gweithredir y broses ei hun gan ddau gorff sydd y tu allan i Lywodraeth Cymru: Asiantaeth y Swyddfa Brisiad a Thribiwnlys Prisio Cymru. Mae rolau a swyddogaethau'r cyrrff hyn o ran apelau wedi'u cynnwys yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Rwy'n ymwybodol o'r pryderon a godwyd ynghylch diwygio'r broses apelio yn Lloegr a chyflwyno'r ymagwedd Gwirio, Herio Apelio (GHA) yn y wlad honno. Nid bwriad Llywodraeth Cymru yw mabwysiadu'r dull hwnnw yn unig. Rwyf am sicrhau bod y system apelio yn cael ei gwella a'i chynllunio i gyd-fynd yn well ag anghenion Cymru.

Rwy'n awyddus i glywed safbwyntiau pawb ynghylch sut y gellir gwella'r system apelio yng Nghymru, ac yn gobeithio y byddwch yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

**Mark Drakeford**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**

# 1 Cyflwyniad

Nid yw'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig mor effeithlon ag y gallai fod. Mae'n cymryd gormod o amser i ddatrys heriau, ac mae'r broses ei hun yn llyncu gormod o adnoddau. Mae'n bwysig inni wella'r prosesau hyn, ac yn sgil hynny, rhyddhau adnoddau gwerthfawr i'w hailgyfeirio tuag at ddarparu gwasanaethau rheng flaen.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch diwygio'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru gan anelu i wneud y system yn fwy effeithlon ac effeithiol o safbwynt y llywodraeth, ymarferwyr a thalwyr ardrethi.

Ceir hefyd ystyriaethau gweithredol o ran Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio (ASB). Oherwydd rôl y cyrff hyn, mae gweithredu newidiadau i'r broses apelio yn ddibynnol ar eu gallu i addasu eu prosesau a'u gweithdrefnau, ee, capasiti ASB i newid ei systemau gwybodaeth. Rydym eisoes wedi dechrau'r broses o ddiwygio gweithdrefnau gweithredol TPC, ar ôl ymgynghori ar gynigion ar ddechrau 2017. Prin yw pwerau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithdrefnau'r ASB, sydd yn asiantaeth weithredol annibynnol o dan CaThEM, ac sy'n gyfrifol am swyddogaethau prisio Cymru a Lloegr. Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyfyngu i'r rhannau hynny o'r broses apelio lle gall Llywodraeth Cymru gyflwyno newidiadau drwy ddeddf.

Rydym yn gofyn am farn pobl ynghylch sut i wella'r broses apelio yn gyffredinol, ynghylch y graddfeydd amser ar gyfer pob cam o'r broses apelio, ac ar agweddau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys cynigion i gwblhau apelau ynghynt, cynigion ynghylch pryd y dylid darparu gwybodaeth drwy'r broses apelau, y posibilrwydd o gyflwyno ffioedd am apelau aflwyddiannus, cosbau sifil newydd am ddarparu gwybodaeth ffug a gofyniad i gyflwyno apelau mewn modd cyfrifol ac atebol.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn ond yn ymdrin â'r broses apelio ar gyfer ardrethi annomestig. Materion i ASB yw'r fethodoleg ar gyfer prisio eiddo ac asesu eiddo i ddibenion prisio, ac nid yw hynny wedi'i gynnwys yng nghwmpas yr ymgynghoriad hwn. Nid yw ychwaith yn trafod y broses apelio ar gyfer prisiadau'r dreth gyngor, y ceir trefniadau ar wahân ar eu cyfer.

Rydym yn ymgynghori yn gynnar yn y broses ddiwygio fel hyn fel bo modd inni ystyried y dystiolaeth a'r safbwyntiau a geir cyn gweithredu newidiadau. Byddwn yn gweithio gydag ASB a TPC i sicrhau ein bod yn dylunio system addas i Gymru.

Nid yw'r cynigion hyn ond yn berthnasol i Gymru.

## 2 Y Cefndir

Mae ardrethi annomestig yn cyfrannu dros £1 biliwn i ariannu gwasanaethau lleol hanfodol yng Nghymru - gwasanaethau y gall talwyr ardrethi elwa arnynt.

Un o brif nodweddion y system ardrethi annomestig yw'r broses apelio. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer system apelio, fel bo modd i dalwr ardrethi herio'r gwerth trethadwy a bennwyd i'w eiddo gan ASB.

Yn Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Addasu Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2005, nodir sut y dylid gweithredu'r system apelio, gan gynnwys y graddfeydd amser a'r sail dros gyflwyno apêl, a'r broses y mae'n rhaid ei dilyn. Nid yw'r system apelio yng Nghymru wedi newid rhyw lawer ers llunio'r rheoliadau hyn.

Mewn adolygiad gan Lywodraeth y DU o weinyddiaeth y system ardrethi annomestig yn Lloegr, gwelwyd problemau'n gysylltiedig â nifer yr apelau ffurfiol o fewn y system, yr amser yr oedd hi'n ei gymryd i ddatrys apelau, capasiti Tribiwnlys Prisio Loegr i restru a gwrando apelau, a nifer yr apelau na arweiniodd at unrhyw newid i'r rhestr ardrethi. Ystyriwyd bod y ffactorau hyn, gyda'i gilydd, yn creu system aneffeithlon a achosai rwystredigaeth i dalwyr ardrethi a chostau i'r llywodraeth, i fusnesau ac i dalwyr ardrethi eraill.

Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn yn Lloegr, cyflwynwyd pwerau rheoleiddio yn sgil Deddf Menter 2016<sup>1</sup> a gweithredodd Llywodraeth y DU system newydd, o'r enw Gwirio, Herio ac Apelio (GHA), o 1 Ebrill 2017.

Cafwyd hyd i broblemau tebyg yn gysylltiedig â'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru, ond roedd y problemau hyn yn llawer llai cyffredin na'r problemau a geir yn Lloegr. Gofynnwyd am ddarpariaethau yn gysylltiedig â Chymru hefyd er mwyn hwyluso'r broses o ddiwygio'r system apelio yng Nghymru. Roedd y darpariaethau hynny hefyd wedi'u cynnwys yn Neddf Menter 2016.

### Y System Apelau Gyfredol

O dan y system gyfredol, os yw talwr ardrethi o'r farn fod gwerth trethadwy ei eiddo, neu fanylion ei eiddo yn anghywir, gall gysylltu ag ASB i ddechrau i ofyn am gael newid hynny. Os yw ASB yn cytuno â hynny, bydd y rhestr ardrethi yn cael ei haddasu. Os nad yw ASB yn cytuno â hynny, caiff y talwr ardrethi herio penderfyniad ASB drwy gyflwyno cais, ar yr amod bod y cais yn bodloni un o blith ystod o resymau penodedig.

---

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2016/12/contents/enacted>

Mae'r rhain yn cynnwys:

- bod y prisiad yn anghywir;
- bod yr eiddo neu'r ardal wedi newid mewn rhyw fodd neu'i gilydd ac y dylid dangos hynny yn y gwerth trethadwy, ee mae'r eiddo wedi cael ei ddymchwel neu bellach yn gartref;
- mae newid a wnaed i'r prisiad (gan ASB) yn anghywir, neu heb ei weithredu;
- mae'r eiddo wedi cael ei rannu'n anghywir i fwy nag un cofnod ar y rhestr, neu wedi'i gyfuno'n anghywir ag eraill i greu un cofnod ar y rhestr.

Ar hyn o bryd, ni chaiff talwyr ardrethi ond cyflwyno cais unwaith yn erbyn pob un o'r rhesymau uchod ar gyfer pob eiddo annomestig hyd ddiwedd oes y rhestr ardrethi (pum mlynedd fel arfer).

Cyn gynted ag y bydd cais wedi'i gyflwyno, bydd ASB yn ystyried cais y talwr ardrethi ac os yw'n cytuno, yn newid y rhestr ardrethi fel bo'n briodol, ac wedyn yn ôl-ddyddio unrhyw newid yn sgil hynny i'r swm o dreth sy'n daladwy. Os yw'r talwr ardrethi yn anghytuno â phenderfyniad ASB, gall apêl gael ei gyflwyno i TPC. Os nad yw ASB yn ystyried cais y talwr ardrethi o fewn cyfnod penodol (dau fis), trosglwyddir y cais i TPC, a bydd yn cael ei droi yn apêl yn ddiodyn.

Cyfeirir yn aml at gam y cais (i ASB) a cham yr apêl (i TPC) gyda'i gilydd fel y system apelio ar gyfer ardrethi annomestig.

### **Anfanteision y system gyfredol**

Dwy brif anfantaes yw'r amser a gymerir i ddatrys heriau a'r adnoddau sydd eu hangen i weinyddu'r system gyfredol. Mae'n cymryd cryn amser i achos fynd drwy'r broses apelio, a chanlyniad hynny yw ansicrwydd i dalwyr ardrethi a chostau i apelwyr a'r llywodraeth. Canlyniad arall yr amser hir y gall apêl ei gymryd yw'r gofyniad i ôl-ddyddio apelau llwyddiannus dros gyfnodau hir, gan greu dyledion mawr ac annarogan i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Yng Nghymru, ceir cyfran cymharol uchel o heriau o gymharu â nifer yr hereditamentau ar y rhestr - 44% ar gyfer rhestr 2005, a 42% ym mis Chwefror 2017 ar gyfer rhestr 2010. O'r heriau hyn, dim ond 40% (2005) a 37% (2010) sydd wedi arwain at addasu'r rhestr, gan olygu na cheir unrhyw newid i'r gwerthoedd trethadwy yn sgil tua deuparth o'r heriau. Neu o esbonio hyn mewn ffordd arall, dim ond 15% o'r prisiadau ar y rhestr sy'n cael eu newid dros oes y rhestr yn sgil apêl.

Ym mis Mawrth 2015, tua 58 wythnos oedd yr amser cymedrig i ddatrys apêl yng Nghymru, a'r canolrif o ran amser oedd 48 o wythnosau.

Ceir agweddau eraill ar y system sydd yn ei atal rhag gweithredu'n effeithiol.



- Prin yw'r wybodaeth brisio a roddir i dalwyr ardrethi, sy'n golygu bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno i ASB er mwyn helpu talwyr ardrethi i ddeall prisiad, yn hytrach nag am eu bod yn anghytuno ag ef.
- Oherwydd bod terfyn amser (o ddau fis) ar gyfer ystyriaeth ASB o geisiadau, bydd ceisiadau'n aml yn cael eu troi'n apelau i TPC yn ddiodyn, p'un a oes gan y talwr ardrethi fwriad gwirioneddol i apelio yn erbyn ei brisiad ai peidio.
- Cyflwynir nifer fawr o geisiadau gydag ond ychydig o dystiolaeth gefnogol, os o gwbl, sy'n ei gwneud hi'n anodd i ASB gynnwys ceisiadau tebyg yn yr un categorïau er mwyn bwrw ymlaen â nhw. Mae hyn hefyd yn achosi llawer o fynd a dod rhwng ASB a thalwyr ardrethi neu eu hasiantau. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos ceisiadau a gyflwynir gan asiantau ardrethi.
- Ceisiadau hapfasnachol yw cyfran sylweddol o'r ceisiadau, yn enwedig y rhai a gyflwynir tua diwedd oes rhestr ardrethi. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid cyflwyno ceisiadau cyn cau'r rhestr er mwyn sicrhau bod y swm sy'n daladwy yn cael ôl-ddyddio os yw'r cais yn llwyddiannus.
- Fel rheol, ni fydd y broses negodi rhwng ASB a thalwyr ardrethi neu eu hasiantau ond yn dechrau ar ôl cynnwys apêl ar restr gwrandawiaidau. Nid oes unrhyw gymhellion i hyn ddigwydd cyn hynny, nac unrhyw ofyniad i'r talwr ardrethi nac ASB ddarparu gwybodaeth gefnogol nes bod apêl wedi'i chynnwys ar y rhestr honno.

Gellir gwella pob cam o'r broses apelio.

### **Pam bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno newidiadau i'r system apelio yng Nghymru?**

O'n trafodaethau â thalwyr ardrethi, a chyda TPC ac ASB, mae'n glir y dylid archwilio'r potensial i foderneiddio'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru. Ein nod yw manteisio ar y gwersi a ddysgwyd yn sgil diwygiadau mewn mannau eraill, ond cynnal proses apelio fwy effeithlon ac effeithiol sy'n bodloni anghenion ac amgylchiadau neilltuol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y system apelio gyfredol ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru.

<http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/businessrates/appeals/?skip=1&lang=cy>

### **3 Cynigion i ddiwygio'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru**

Wrth gyflwyno newidiadau i'r system apelio yng Nghymru, ein nod fyddai creu system decach a mwy effeithlon a chost-effeithiol ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru.

Mae angen ymdrin â phob achos cyn gynted ag sy'n bosibl a dylid gwneud defnydd effeithlon o adnoddau. Mae ASB yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth glir a digon manwl am y broses brisio drwy ei gwefan. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cymhwyso arfer da a welwyd yng nghyfundrefnau trethu eraill y DU yng Nghymru.

Bydd pob talwr ardrethi yn parhau i allu apelio yn erbyn prisiad eu heiddo os ydynt yn tybio ei fod yn anghywir. Bydd ASB yn parhau i gadw rhestr brisio lawn ac, am y tro, yn parhau i reoli prif elfennau'r broses apelio ar gyfer Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu pob agwedd ar y system apelio ar gyfer ardrethi annomestig, a bydd yn ystyried safbwyntiau talwyr ardrethi Cymru a rhanddeiliaid eraill wrth gyflwyno unrhyw newidiadau i'r system. Yn gyfochr â hyn, rydym yn ystyried diwygiadau tymor hwy i'r system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru, sy'n cynnwys ail-archwiliad mwy cyffredinol o'r system ardrethi annomestig. Mae ein cynlluniau ar gyfer diwygiadau tymor hwy wedi'u nodi ar wahân.

#### **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

##### **C1 Os ydych yn cytuno bod modd gwella'r broses apelio, pa agweddau ar y system y gellid eu gwella yn eich barn chi, a sut y gellid gwneud hynny?**

Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn gofyn i ymatebwyr ystyried elfennau neilltuol o'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig

##### **i. Cofrestru ar gyfer y broses apelio**

Mae'r system gyfredol yn galluogi rhanddeiliaid (mae hyn yn cynnwys unrhyw un a chanddo gysylltiad cymwys â'r meddiannydd neu'r perchennog) i gyflwyno apêl ar ran talwyr ardrethi heb sicrhau eu bod yn cytuno'n benodol i hynny.

Gan fod apelau hapfasnachol yn cael eu cyflwyno, mae'n cymryd mwy o amser i brosesu apelau dilys. Mae apelau hapfasnachol hefyd yn achosi costau i'r llywodraeth, sydd yn gostau a ysgwyddir gan drethdalwyr eraill yn y pen draw.

Cynigir y dylai hi barhau i fod yn ofynnol i dalwyr ardrethi gofrestru'n unigol cyn cychwyn unrhyw gam o'r broses apelau. Byddai angen i ymgeiswyr ddatgan eu buddiant yn yr eiddo dan sylw cyn symud ymlaen. Ni fyddai modd i unrhyw un arall gyflwyno apêl oni fyddai'r talwr ardrethi wedi cwblhau'r broses gofrestru. Pwrpas hyn fyddai sicrhau bod apelau'n cael eu cyflwyno gyda chytundeb y talwr ardrethi, a bod gan y talwr hwnnw reswm dilys dros wneud ymholiadau ynghylch gwerth trethadwy ei eiddo.

Byddai talwyr ardrethi yn dal i allu rhoi cyfarwyddyd i asiantau weithredu ar eu rhan, ond ni fyddai modd i hynny ddigwydd ond ar ôl i'r talwr ardrethi gofrestru ei eiddo, a phan fyddai asiant wedyn yn gweithredu ar eu rhan.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**C2 Beth yw eich barn chi ynghylch y gofyniad i dalwyr ardrethi gofrestru eu heiddo cyn cychwyn y broses apelio?**

**C3 Sut ydych chi'n credu y dylai talwyr ardrethi allu datgan eu buddiant mewn eiddo?**

### **ii. Hyd pob cam**

Gan mai deufis yw'r terfyn amser cyfredol er mwyn i ASB ystyried ceisiadau, mae hynny'n golygu y bydd ceisiadau'n aml yn cael eu troi'n apeliadau i TPC yn ddiodyn, p'un a oes gan y talwr ardrethi fwriad gwirioneddol i apelio yn erbyn ei brisiad ai peidio. Mae'r terfynau amser yn golygu bod achosion yn cael eu trosglwyddo i'r cam apelio cyn i ASB roi ystyriaeth briodol iddynt. Mae hyn yn creu baich y gellir ei osgoi o fewn y system, gyda nifer sylweddol o apelau yn cael eu trosglwyddo i'r tribiwnlys gan olygu bod yn rhaid i TPC ymwneud â hwy, a hynny heb fod angen.

Cynigir y dylid gosod terfynau amser newydd ar gyfer y broses apelio. Byddai'r terfynau hyn yn pennu'r ffrâm amser ar gyfer ymdrin ag apêl, er mwyn cyflymu'r amser a gymerir i gwblhau'r broses a lleihau nifer yr achosion sy'n symud ymlaen i'r cam apelio heb fod angen. Y nod yw rhoi digon o amser i'r talwr ardrethi ac ASB ddod i gytundeb, heb fod angen symud y mater yn ei flaen i apêl ffurfiol.

Ar ôl i dalwyr ardrethi ddatgan eu buddiant mewn eiddo, dylid bod modd iddynt adolygu'r wybodaeth a ddefnyddiwyd gan ASB i bennu gwerth trethadwy'r eiddo. Pwrpas hyn yw sicrhau bod gan dalwyr ardrethi ac ASB fynediad at yr un wybodaeth sylfaenol am yr eiddo dan sylw, ac yn yr achosion lle cwestiynir prisiadau, bod y rhesymau wrth wraidd hynny'n cael eu sefydlu mor gynnar yn y broses ag sy'n bosibl. Gwneir hynny er mwyn arbed amser yn ddiweddarach a gostwng nifer yr apelau di-sail.

Os yw'r talwr ardrethi o'r farn y dylid adolygu'r gwerth trethadwy, ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i gyfrifo prisiad ei eiddo, bydd angen iddo gyflwyno cais i ASB. Yn y cam hwn, byddai angen i'r talwr ardrethi gyflwyno achos o blaid newid y prisiad, wedi'i gefnogi gan sail resymegol glir, gan gynnwys rhesymau cadarn pam bod y talwr ardrethi o'r farn bod y prisiad yn anghywir, yn ogystal â darparu amcangyfrif arall o'r prisiad (gweler yr adran nesaf). Ar ôl cyflwyno'r holl wybodaeth, byddai'n ofynnol i ASB ddod i benderfyniad o fewn terfyn amser penodol.

Byddwn yn ystyried hyd y terfyn amser gan ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Ein bwriad yw taro cydbwysedd rhwng rhoi digon o amser i'r talwr ardrethi ac ASB roi ystyriaeth lawn i'r holl wybodaeth ac ysgogi cwblhau'r broses cyn gynted ag sy'n bosibl; ymddengys y byddai chwe mis, er enghraifft, yn ddigonol. Fodd bynnag, rydym yn croesawu barn pobl ynghylch hyd priodol y cyfnod hwn, gan gynnwys a ellid bod angen cyfnod estynedig ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth. Byddai angen datblygu gweithdrefnau i ddarparu ar gyfer achosion na ellir eu cwblhau o fewn y terfynau amser arferol. Os na fyddai penderfyniad yn cael ei wneud, neu gytundeb rhwng y naill ochr a'r llall o fewn y cyfnod dan sylw, byddai'r achos yn troi'n apêl ffurfiol ac yn cael ei drosglwyddo i TPC.

Cynigir hefyd y dylid sefydlu ffrâm amser newydd ar gyfer ymdriniaeth TPC ag apelau. Cyn gynted ag y bydd achos wedi symud ymlaen at apêl, byddai ffrâm amser benodol yn cael ei sefydlu i sicrhau bod TPC yn ymdrin â'r achos o fewn cyfnod penodol. Er enghraifft, byddai 12 mis yn ymddangos yn rhesymol, ond unwaith eto byddwn yn croesawu safbwyntiau ynghylch yr hyn a fyddai'n briodol.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

### **C4 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno terfynau amser ar gyfer gwahanol gamau yn y broses apelio? Pa derfynau amser fyddai'n briodol yn eich barn chi?**

#### **iii. Darparu gwybodaeth**

Yn rhan o'r broses apelio bresennol, nid yw'n ofynnol cyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol ar ddechrau'r broses. Nid yw hyn yn gyson â'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer trethi eraill lle mae'n rhaid datgelu'r wybodaeth berthnasol o'r cychwyn cyntaf wrth gwestiynu'r swm sy'n daladwy.

Byddai rhannu gwybodaeth o'r cychwyn cyntaf yn galluogi'r talwr ardrethi ac ASB ac, os yw'r achos yn mynd rhagddo i'r broses apêl, TPC, i sefydlu a oes sail ddilys dros symud ymlaen i gam nesaf y broses.

O dan yr ymagwedd ddiwygiedig, cynigir y byddai'n ofynnol i dalwyr ardrethi gyflwyno'r holl wybodaeth sydd ar gael ar ddechrau'r broses apelio. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gynrychiolwyr sy'n gweithredu ar ran talwr ardrethi. Gwneir hyn i ysgogi datgeliad llawn o'r holl dystiolaeth berthnasol ar ddechrau'r broses.

Byddai hyn yn cynnwys unrhyw wybodaeth a allai lywio'r penderfyniad a wnaed gan ASB o ran prisio. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys manylion cytundeb rhentu neu newidiadau i eiddo. Yn achos busnesau, gallai gynnwys trosiant a gwybodaeth fasnachol.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall ei bod hi'n bosibl na fydd gan dalwyr ardrethi, ar ddechrau'r broses, fynediad at yr holl wybodaeth y gallai fod angen iddynt ei chyflwyno fel tystiolaeth bod eu prisiad yn anghywir. Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl i dalwyr ardrethi ddarparu'r holl wybodaeth sydd yn eu meddiant o'r cychwyn cyntaf ac ym mhob cam dilynol.

Deallir hefyd ei bod hi'n bosibl na fydd gan dalwyr ardrethi fynediad at wybodaeth arall benodol ar ddechrau'r broses. Er enghraifft, efallai na fydd talwr ardrethi yn gallu darparu prisiad cadarn arall ar gyfer ei eiddo. Fodd bynnag, y mae hefyd yn rhesymol disgwyl i'r talwr ardrethi gyflwyno'r holl dystiolaeth sydd ar gael i ddangos pam ei fod o'r farn fod y prisiad yn anghywir. Er enghraifft, mewn llawer o achosion gellir cael hyd i brisiadau a rhenti ar gyfer eiddo tebyg ar-lein.

Gellid derbyn gwybodaeth newydd a gyflwynir ar ôl cychwyn apêl os nad oedd yr wybodaeth honno ar gael ar ddechrau'r broses, neu lle nad oedd y talwr ardrethi mewn sefyllfa i ddarparu'r wybodaeth. Byddai'r wybodaeth honno'n cael ei derbyn yn ôl doethineb ASB, neu TPC lle bo'n briodol. Byddai'r penderfyniad ynghylch derbyn gwybodaeth newydd ai peidio yn cael ei lywodraethu gan feini prawf a chanllawiau clir.

Byddai ASB ynn rhoi arweiniad er mwyn cynorthwyo talwyr ardrethi wrth ddarparu gwybodaeth gefnogol.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**C5 Byddem yn croesawu eich barn ynghylch darparu tystiolaeth yn rhan o'r broses apelio, a'r rheolaethau dros gyflwyno tystiolaeth newydd ar ôl cychwyn y broses apelio. A oes ffyrdd eraill i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno?**

## **Gwybodaeth ychwanegol**

Cynigir y dylai'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig gynnwys darparu gwybodaeth fanwl ychwanegol i'r talwr ardrethi ynghylch prisiad eu heiddo. Byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn rhoi dealltwriaeth well i'r talwr ardrethi ynghylch y dull o gyfrifo ei brisiad, ac yn rhoi cyfle iddo ddarparu unrhyw wybodaeth ffeithiol goll.

Cynigir y dylai'r wybodaeth hon yn cael ei darparu drwy wefan ASB ac ar gael ar ôl i'r talwr ardrethi gofrestru ei eiddo. Nod yr wybodaeth hon fyddai cadarnhau, ar y cyfle cyntaf, y dull o gyfrifo'r prisiad eiddo. Byddai hyn yn galluogi'r talwr ardrethi i nodi pam ei fod o'r farn mai ffigur gwahanol y dylid ei ddefnyddio, a chyflwyno tystiolaeth i'r perwyl hwnnw.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

### **C6 Pa wybodaeth ychwanegol a allai helpu talwyr ardrethi i ddeall sut y cyfrifwyd prisiadau unigol?**

#### **iv. Ôl-ddyddio apelau**

Rydym hefyd yn cynnig newid y trefniadau ar gyfer ôl-ddyddio apelau llwyddiannus. Ni fyddai'r newidiadau ond yn berthnasol pan fyddai gan y talwr ardrethi wybodaeth sy'n berthnasol i'w apêl, ond na fyddai'n rhannu'r wybodaeth honno cyn herio ei brisiad yn ffurfiol, er enghraifft yn ystod y cam cofrestru neu adolygu.

Ar hyn o bryd, caiff yr holl apelau llwyddiannus eu hól-ddyddio hyd at ddyddiad cofnodi'r hereditament ar y rhestr ardrethi. O hyn allan, cynigir y dylid ôl-ddyddio prisiadau sy'n llwyddo ar apêl hyd at ddyddiad cyflwyno'r apêl. Pwrpas hyn hefyd yw sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei datgelu mor fuan ag sy'n bosibl yn y broses er mwyn lleihau'r amser a gymerir yn y camau diwethaf.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

### **C7 Beth yw eich barn ynghylch ôl-ddyddio apelau llwyddiannus, ac ynghylch cysylltu hyn â darparu gwybodaeth berthnasol yn brydlon?**

## **v. Cosbau Sifil (Dirwyon)**

Mae talwyr ardrethi, a'u cynrychiolwyr, yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth ddilys a manwl gywir yn rhan o'r broses o gyflwyno apêl.

Cynigir y dylai newidiadau i'r system apelio gynnwys cyflwyno Cosbau Sifil (dirwyon) os bydd talwr ardrethi neu eu cynrychiolwyr dynodedig yn darparu gwybodaeth ffug ar unrhyw bryd yn ystod y broses apelio. Byddai'r dirwyon hyn yn berthnasol pe bai gwybodaeth ffug yn cael ei darparu'n fwriadol, yn ddi-hid neu drwy esgeulustra. Ni fyddent yn berthnasol pe bai gwybodaeth anghywir yn cael ei darparu o ganlyniad i wall gwirioneddol.

Byddai darparu gwybodaeth ffug yn arwain at Gosb Sifil. Cynigir y byddai lefel y gosb yn gysylltiedig â gwerth trehadwy'r eiddo. Fel enghraifft, cynigiodd Llywodraeth y DU ddirwy o £500 am ddarparu gwybodaeth ffug.

ASB fyddai'n cyflwyno'r Cosbau Sifil. Byddai gan y talwyr ardrethi hawl i apelio i TPC.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**C8 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno Cosbau Sifil am ddarparu gwybodaeth ffug yn fwriadol, yn ddi-hid, neu drwy esgeulustra, ac ynghylch lefelau'r cosbau hynny?**

## **4 Ffioedd**

Mae'n bwysig dylunio'r system apelio fel bo modd datrys heriau ac apelau dilys yn effeithiol ac effeithlon.

Cyfrifoldeb talwyr ardrethi yw cyflwyno apelau dilys a deallus yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n dangos bod eu prisiad yn anghywir am ryw reswm neu'i gilydd. Mae apelau sy'n seiliedig ar ychydig o wybodaeth, os o gwbl, neu sydd yn seiliedig ar y ffaith bod prisiad wedi codi yn unig, yn llyncu amser, a byddai'n well defnyddio'r arian hwnnw i ddatrys gwallau ac apelau dilys ac ar sicrhau bod y rhestr ardrethi yn gyfredol ac yn fanwl gywir. Bydd apelau hapfasnachol, yn enwedig apelau a gyflwynir mewn swmp, a'r rhai a gyflwynir heb yn wybod i'r talwr ardrethi, yn llyncu adnoddau sylweddol, ac yn rhoi cryn straen ar y broses apelio. Bydd gwrandawiadau llawn a gwrandawiadau heb bresenoldeb yn achosi costau diangen mewn sefyllfaoedd lle gellid bod wedi datrys yr achos ynghynt.

Cynigir y dylid cyflwyno ffioedd ar gyfer apelau ynghylch ardrethi annomestig, yn unol â'r ymagwedd a fabwysiadwyd ar gyfer apelau a thribiwnlysoedd eraill. Er enghraifft, cynigiodd Llywodraeth y DU ffioedd o £300 ar gyfer eiddo annomestig

o faint mwy- a £150 ar gyfer rhai llai. Byddai'r ffioedd hynny'n cael eu had-dalu ym mhob apêl sy'n llwyddo. Byddai ffi ostyngol yn berthnasol pe bai'r holl bartïon yn cytuno bod modd penderfynu ynghylch achos heb wrandawriad.

## **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

### **C9 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno ffioedd a lefelau'r ffioedd hynny?**

## **5 Rôl Tribiwnlys Prisio Cymru**

Os na fydd y talwr ardrethi yn fodlon â phenderfyniad ASB, bydd TPC yn ystyried yr apêl. Gwaith TPC yw barnu a yw'r prisiad yn rhesymol, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael. Os yw o'r farn fod y prisiad yn rhesymol, ni fydd yn rhoi gorchymyn i newid y rhestr ardrethi. Os nad yw TPC o'r farn fod y prisiad yn brisiad rhesymol, gall roi gorchymyn i newid y rhestr.

Fel yr amlinellwyd yn adran 3 (ii), bydd rhai achosion yn symud ymlaen i'r tribiwnlys gan nad yw'r ASB wedi dod i benderfyniad ynghylch y cais gwreiddiol o fewn y cyfnod amser penodedig. Caiff llawer o'r apelau hyn eu datrys neu eu gollwng heb gynnal gwrandawriad tribiwnlys. Mewn rhai achosion, bydd gwrandawriadau'n cael eu trefnu, ond y talwr ardrethi yn tynnu'n ôl o'r broses.

Nid yw yr un o'r sefyllfaoedd hyn yn cynrychioli defnydd effeithiol o adnoddau cyhoeddus.

O dan y system gyfredol, pan gyflwynir apêl i TPC, mae'n rhaid i'r talwr ardrethi nodi rhesymau cadarn dros yr apêl, darparu copi o benderfyniad ASB ac unrhyw dystiolaeth a gyflwynwyd, a darparu copi o'r her wreiddiol.

Cynigir y dylid cyfyngu ar y gallu i gyflwyno unrhyw dystiolaeth newydd yn y cam hwn, ac na ddylid caniatáu hynny ond gyda chytundeb y partïon dan sylw, neu mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft os gellir dangos nad oedd y talwr ardrethi yn gallu darparu'r wybodaeth ymlaen llaw. TPC fyddai'n penderfynu a ddylid caniatáu'r dystiolaeth newydd. Pwrpas hyn fyddai sicrhau bod y dystiolaeth sydd ar gael yn cael ei chyflwyno mor fuan ag sy'n bosibl.

Byddai TPC yn ystyried penderfyniad ASB, ar sail y dystiolaeth a oedd o'i blaen yn y cam perthnasol, ac yn penderfynu a ddylid cadarnhau'r penderfyniad. Gallai TPC ddiystyru dystiolaeth a gyflwynwyd ar ôl i ASB ddod i'w benderfyniad cyntaf, ac eithrio yn yr amgylchiadau a amlinellir uchod.



## Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**C10 Beth yw eich barn ynghylch defnyddio rheolaethau dros gyflwyno gwybodaeth ychwanegol (gwybodaeth nas cyflwynwyd ynghynt yn y broses apel) yn sail ar gyfer penderfyniad y TPC?**

## 6 Y Gymraeg

Gwahoddir sylwadau ynghylch effeithiau'r cynigion hyn i newid y system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru (boed gadarnhaol neu niweidiol) ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

Yn ogystal â hyn, gofynnir am sylwadau ynghylch a ellid ffurfio neu ddiwygio'r cynigion mewn modd a fyddai'n cael effaith gadarnhaol, neu lai o effaith andwyol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

**C11 Hoffem wybod eich barn am effeithiau *newidiadau i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig* ar y Gymraeg, yn benodol**

- i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii. o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

**Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

**C12 Esboniwch sut y gellid ffurfio neu newid y newidiadau arfaethedig i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig er mwyn:**

- i. cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg,
- ii. osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

## 7 Casgliadau a'r camau nesaf

### Casgliadau

Y bwriad yw diweddarau'r rhannau hynny o'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig y mae angen eu diwygio. Un o nodweddion pwysig y system ardrethi annomestig yw sicrhau bod talwyr ardrethi yn cael cyfle i apelio yn erbyn prisiad

eu heiddo os ydynt o'r farn fod y gwerth trethadwy yn anghywir. Dylid gwneud hynny yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol bosib, o safbwynt talwyr ardrethi, ac o safbwynt y llywodraeth.

Byddai'r newidiadau a gynigir yn golygu bod mwy o wybodaeth ar gael i dalwyr ardrethi mor fuan yn y broses ag sy'n bosib, a hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r talwr ardrethi gyflwyno'r holl wybodaeth berthnasol ar ddechrau unrhyw apêl.

Bob tro y bydd prisiad yn cael ei herio, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth lawn i hynny. Mae'n bwysig hefyd bod apelau'n cael eu cyflwyno ar sail gwybodaeth fel bo modd i'r system apelio gyfan weithredu'n effeithiol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gam allweddol er mwyn datblygu'r dull o ddiwygio'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig yng Nghymru.

### **Y Camau Nesaf**

Mae'r ymgynghoriad ar agor am gyfnod o 12 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Llywodraeth Cymru'n gwneud mwy o waith i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn cynnal archwiliad llawn o oblygiadau posibl y cynigion.

Ar ôl cau'r ymgynghoriad, bydd yr holl ymatebion yn cael eu dadansoddi a'u defnyddio'n sail ar gyfer newidiadau deddfwriaethol a weinyddol fydd yn anelu i wella'r system.

## 8 Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i Lywodraeth Cymru, i gyrraedd ar 9 Ionawr 2018 ar yr hwyraf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost i:

Y Gangen Polisi Trethu Lleol: [LGF1Consultations@gov.wales](mailto:LGF1Consultations@gov.wales)

<b>Ymgynghori</b>	
<b>Diwygio'r System Apelio ar gyfer Ardrethi Annomestig yng Nghymru</b>	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw</b>	
<b>Sefydliad</b>	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cyfeiriad e-bost</b>	
<b>Ffôn</b>	

Q1 Os ydych yn cytuno bod modd gwella'r broses apelio, pa agweddau ar y system y gellid eu gwella yn eich barn chi, a sut y gellid gwneud hynny?

Sylwadau:

Q2 Beth yw eich barn chi ynghylch y gofyniad i dalwyr ardrethi gofrestru eu heiddo cyn cychwyn y broses apelio?

Sylwadau:

Q3 Sut ydych chi'n credu y dylai talwyr ardrethi allu datgan eu buddiant mewn eiddo?

Sylwadau:

Q4 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno terfynau amser ar gyfer gwahanol gamau yn y broses apelio? Pa derfynau amser fyddai'n briodol yn eich barn chi?

Sylwadau:

Q5 Byddem yn croesawu eich barn ynghylch darparu tystiolaeth yn rhan o'r broses apelio, a'r rheolaethau ar gyflwyno tystiolaeth newydd ar ôl cychwyn y broses apelio. A oes ffyrdd eraill i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno?

Sylwadau:

Q6 Pa wybodaeth ychwanegol a allai helpu talwyr ardrethi i ddeall sut y cyfrifwyd prisiadau unigol?

Sylwadau:

Q7 Beth yw eich barn ynghylch ôl-ddyddio apelau llwyddiannus, ac ynghylch cysylltu hyn â darparu gwybodaeth berthnasol yn brydlon?

Sylwadau:

Q8 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno Cosbau Sifil am ddarparu gwybodaeth ffug yn fwriadol, yn ddi-hid, neu drwy esgeulustra, ac ynghylch lefelau'r cosbau hynny?

Sylwadau:

Q9 Beth yw eich barn ynghylch cyflwyno ffioedd a lefelau'r ffioedd hynny?

Sylwadau:

Q10 Beth yw eich barn ynghylch defnyddio rheolaethau dros gyflwyno gwybodaeth ychwanegol (gwybodaeth nas cyflwynwyd ynghynt yn y broses apêl) yn sail ar gyfer penderfyniad TPC?

Sylwadau:

Q11 Hoffem wybod eich barn ynghylch effeithiau'r newidiadau i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig ar y Gymraeg, yn benodol:

- i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii. o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau hyn yn eich tyb chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau:

Q12 Esboniwch sut y gellid ffurfio neu newid y newidiadau arfaethedig i'r system apelio ar gyfer ardrethi annomestig er mwyn:

- i. cael effaith gadarnhaol, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg,
- ii. osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â Saesneg.

Sylwadau:

Q13 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Defnyddiwch y gofod isod os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi'u trafod yn benodol.

Nodwch hwy yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu rhannu â'r cyhoedd, naill ai ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn ddiennw: